SGEMA

GLOBAL WELSH



# Hyb Cysylltwr Sir Gâr a Cheredigion

## Grymuso busnesau lleol, cofleidio cyfleoedd byd-eang.

***Cynnig arbennig:* blwyddyn o aelodaeth di-dâl**
*i fusnesau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Darganfyddwch bŵer cysylltiadau rhyngwladol.*

## Dewch i ddatgloi potensial eich busnes gyda rhwydweithiau byd-eang newydd

**Ydych chi'n fusnes yn Sir Gaerfyrddin neu Geredigion ac eisiau mynediad at gymuned sy'n tyfu o 20,000 o Gymry alltud wedi'u lleoli ar draws 70+ o wledydd, sy'n ymroddedig i adeiladu cymuned fyd-eang i Gymry a chyfeillion Cymru? Yna mae Hyb Cysylltwr Sir Gâr a Cheredigion i chi.**

## Pam ymuno â GlobalWelsh?

- **Rhwydweithio rhyngwladol:** cysylltwch â'r Cymry alltud ar draws 70+ o wledydd, gan agor drysau i farchnadoedd a chyfleoedd byd-eang.
- **Twf economaidd:** defnyddiwch eich hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg fel ased economaidd unigryw, gan ddenu buddsoddiadau a syniadau newydd i'ch busnes.
- **Cydweithio arloesol:** byddwch yn rhan o gymuned ddigidol arloesol, gan gydweithio ag entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes llwyddiannus.
- **Treftadaeth ddiwylliannol:** rhowch eich busnes ar flaen y gad mewn mudiad sy'n gwerthfawrogi gwreiddiau diwylliannol.

Ein nod yw creu amgylchedd deinamig ar gyfer busnesau yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin drwy fanteisio ar gymuned fyd-eang gynyddol GlobalWelsh gyda Chymru yn ganolog iddi, er mwyn helpu i ysgogi datblygiad economaidd a synergeddau iaith-economi.

Gall y rhwydwaith helaeth hwn hwyluso cysylltiadau ystyrlon, adnoddau ar y cyd, a chyfleoedd ar gyfer eich busnes a thrwy ymgysylltu â hybiau a llwyfannau amrywiol GlobalWelsh, fel GlobalWelsh Connect, byddwch yn cael cyfleoedd i gysylltu, cydweithio, a thyfu ar lwyfan byd-eang.

**Dysgwch mwy: Hyb Cysylltwr Sir Gâr a Cheredigion**

**Cysylltwch: post@sgema.cymru**


ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government